

FFAIR SBORION WYTHNOSOL AR DDYDD GWENER

Yn 2014 bu i Eunice Cawley feddwl am y syniad gwych o ail-ddechrau'r Ffair Sborion er mwyn codi arian i gynnal a chadw'r Pafiliwn er mwyn iddo barhau i fod yn gyfleuster cymunedol pwysig a defnyddiol.

Rydym yn cyfarfod pob ddydd Gwener o - **11:00yb tan 3:00yp**, ac mae'n ffordd, i lawer erbyn hyn, o gadw mewn cysylltiad gyda thrigolion a dod i wybod am ddigwyddiadau'r ardal. Rydym yn mwynhau sgwrsio dros banded ac mae'n llawer o hwyl. I ryw raddau, mae'r Ffair Sborion ei hun yn ddigwyddiad eilradd i natur gymdeithasol y diwrnod.

Mae raffl wythnosol, sêl planhigion achlysurol (gan Eurwyn o ganolfan arddio Felin a John o Sunnyside) ynghyd â llyfrau ail-law a bric-a-brac (Rydym bob amser yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniadau ail-law ond peidiwch â chyfrannu dillad os gwelwch yn dda).

Mae Eunice ac ein tîm **Helen, Nerys, Joan a Kirsty**, wir yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth ragorol gan ein mynychwyr rheolaidd. Bu ichi ein helpu i godi swm aruthrol o **£5,700** (o Dachwedd 2014 hyd at Fai 2016).

Os ydych chi'n rhydd amser cinio ddydd Gwener a heb drefniadau, ymunwch gyda ni, mae croeso mawr i bawb. Os ydych chi newydd symud i'r pentref neu'r ardal, mae'n ffordd wych o ddod i adnabod y 'Trigolion'.

Fel diolch am y gefnogaeth arbennig, bu inni drefnu taith fws i gyfeillion y Ffair Sborion ar ddydd Gwener Hydref yr 28^{ain} a bu inni fwynhau te prynhawn yng Nghlwb Criced Bangor.



Fel cymuned, hoffem ddiolch yn fawr i Eunice am ei hymroddiad a'i gwaith caled yn cynnal y Ffair Sborion fel cyfleuster hanfodol i'r pentref. Heb ei help hi, fuasai hyn i gyd yn amhosib!



Mae hefyd ymweliadau wythnosol (bron) gan y 'dyn pysgod' sy'n cyd-daro gyda'n cyfarfod. Mae'r dyn pysgod yn dod mewn fan symudol gan gynnig amrywiaeth o bysgod ffres yn syth o'r dociau.